

CYMRU

Uchafbwyntiau ariannol ar gyfer y
flwyddyn hyd at Mawrth 31 2010

Ystad y Goron yng Nghymru

- Ystad y Goron yw'r sefydliad a ffurfiwyd gan y Senedd i reoli ystadau etifeddol y Goron ar ran y genedl.
- Yng Nghymru, mae Ystad y Goron yn cynnwys portffolio eiddo amrywiol, gan gynnwys ardaloedd eang o dir comin, daliadau amaethyddol ac ystod o fuddiannau mwynau.
- Mae Ystad y Goron yng Nghymru hefyd yn cynnwys 67% o'r flaenlan a gwely'r môr hyd at 12 môr-filltir, lle rydym yn chwarae rhan allweddol mewn galluogi datblygwyr i wireddu'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy, yn enwedig felly trwy ffermydd gwynt ar y môr.
- Er taw'n prif fwrriad yw bod yn sefydliad sy'n gwneud elw, rydym ni'n cyfuno'r elfen fasnachol hanfodol bwysig yma gydag ymroddiad yr un mor bwysig i'n gwerthau o gywirdeb a goruwchwyliath.
- Rydym ni'n rheoli'r daliadau yn ein gofal er mwyn lles adnewyddadwy hirdymor ein tenantiaid a chwsmeriaid eraill; eu busnesau; y cymunedau maent yn eu cynrychioli; a'r amgylchedd

Gweithio mewn partneriaeth


Rydym ni'n gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ein dyletswyddau, ac yn awyddus i chwarae'n rhan wrth ffurfio polisi. Deallwn y gwageddau newidiol sy'n effeithio ar Gymru a rydym yn teilwra'n modd o weithio i adlewyrchu'r awyrgylch newydd deinamig a greuwyd yn sgil datganoli.

Er enghraifft mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi yn gryf i oresgyn newid hinsawdd trwy ddatblygu amrywiaeth o ynni adnewyddadwy, maes lle gallwn chwarae rôl allweddol fel galluogwyr. Yn ystod y flwyddyn daethom ni â chwmnïau a sefydliadau at ei gilydd mewn digwyddiad cadwyn gyflenwi gwynt ar y môr yn Sir Benfro. Siarodd Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y digwyddiad, a daeth dros 200 o gynrychiolwyr busnes o bob cam o'r gadwyn gyflenwi.

	Ystad y Goron Cymru 12 mis hyd at 31 Mawrth 2010 £m	Ystad y Goron Cymru 12 mis hyd at 31 Mawrth 2009 £m	Ystad y Goron cyfanswm 12 mis hyd 31 Mawrth 2010 £m	Ystad y Goron cyfanswm 12 mis hyd 31 Mawrth 2009 £m	Lleihad o'r flwyddyn flaenorol	% o'r cyfanswm
Refeniw	2.6	3.6	299.7	304.2	-27.8%	0.9%
Gwaged gros	2.3	3.3	246.3	243.2	-30.3%	0.9%
Gwerth eiddo	28.8	30.0	5989	5513	-4.0%	0.5
Buddsoddiadau cyfalaf	0.2	0.4	394.4	306.8	-	-
Derbyniadau cyfalaf	1.8	0.1	394.7	231.5	-	-

Refeniw fesul geweithgareddau
Y flwyddyn yn 31 Mawrth 2010 £miliwn

- A Amaethyddiaeth – 0.1
- B Mwynau – 0.4
- C Morol/Blaendraeth – 1.7
- D Adnewyddadwy – 0.4



Refeniw eiddo fesul geweithgareddau
Y flwyddyn yn 31 Mawrth 2010 £miliwn

- A Amaethyddiaeth – 3.8
- B Mwynau – 3.8
- C Morol/Blaendraeth – 17.8
- D Adnewyddadwy – 3.4



Ystad Wledig

Mae'n buddion yn ganolog i fywydau nifer helaeth o bobl mewn cymunedau gwledig.

Rydyn ni'n gyfrifol am 3 daliad amaethyddol, a ddefnyddir mewn ffyrdd gwahanol, Aberystwyth, sy'n cynnyws 34 hectar (84 erw) o dir a ddefnyddir gan Brifysgol Aberystwyth at bwrpasau ymchwil a'r bedwaredd farchnad ddefaid fwya yng Nghymru, sy'n 3 hectar (8 erw); Pumlumon 1,185 hectar (2,928 erw) sy'n cynnyws dau ddaliad amaethyddol, a Thyndyrn, 68 hectar (169 erw) sy'n cynnwys buddion mwyno sylweddol ar lan orllewinol yr Afon Gwy. Er mwyn cynnal Abaty Tyndyrn at genedlaethau sydd i ddod, rydyn ni wedi ei osod dan ofal CADW (gwasanaeth amgylcheddol hanesyddol Cynulliad Cymru) dan delerau cytundeb rheolaeth hir-dymor.

Mae'r rhan fwyaf o'n hystad yng Nghymru yn dir comin, a ddefnyddir yn bennaf i bori defaid ond mae gennym hefyd ffermydd mwy traddodiadol. Ein bwriad ydy gweithio gyda'n tenantiaid i gynorthwyo gyda llwyddiant parhaus eu busnesau. Byddwn yn darparu cyfalaf i brosiectau cyd-fuddsoddi hyfw ac yn galluogi hyrwyddo a marchnata cynhyrchion a gwasnaethau o'r radd flaenaf. I hybu partneriaeth llwyddiannus rydyn ni wedi datblygu 'Bargen Busnes' – cyfres o egwyddorion allweddol i ni a'n tenantiaid, sy'n darparu fframwaith i'r modd y gallwn weithio ar y cyd o les i bob un ohonom.

Ein bwriad yw cynllunio ar gyfer yr hirdymor, a gadael etifeddiaeth o fuddsoddi adnewyddadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ystyried yn ofalus traddodiadau lleol a phatrymau rheoli tir wrth edrych i brosiectau newydd ac yn gweithio gyda thenantiaid i'w cynorthwyo i ateb yr her o newidiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd gyda'n tenantiaid mewn prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae Ystad y Goron yn ymwybodol o dargedau'r Llywodraeth ar gyfer Ynni ac edrychwn i gyfrannu at y rhain trwy greu ynni adnewyddadwy ar draws ystod o dechnolegau.

Buddiannau Mwynau

Gan bod ein daliadau yng Nghymru yn cynnwys rhyw 100,000 hectar (250,000 erw) o hawliau mwynau a phrydlesau ar gyfer 11 busnes mwynau, mae cloddio mwynau craidd ar gyfer adeiladu a diwydiant yn weithred sylweddol i Ystad y Goron. Mae'r daliadau yn hanfodol dda a bydd yr amryw fusnesau sy'n gweithredu i echdynnu'r deunyddiau hyn yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i gyflogaeth leol.

Mae echdynnu mwynau yn fater sensitif a rydyn ni'n gweithio'n galed i reoli ei effaith ar yr amgylchedd a'r gymuned leol. Mae chwareli yn destun deddfwriaeth llym, gydag ymarferion gweithio da wedi'u rhagnodi gan awdurdodau cynllunio a'u hagamnerthu gan archwiliadau rheolaidd gan ein swyddogion mwynau, fel rhan o'n rhaglen archwiliad amgylcheddol.

Adnabyddir adneuron o aur ac arian fel Y Mwyngloddiau Brenhinol ac fe'u perchnogir gan Ystad y Goron lle maent yn digwydd yn y DU. Mae cynhyrchiadau masnachol wedi eu cynnal yn y gorffennol, ond mae cyfyngiadau mawr ar gynhyrchiadau er bod pris uchel aur wedi creu llawer o ddiddordeb dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn hanesyddol, drwy ein perchnogaeth mwynau, rydyn ni'n gyfrifol am rai gweithfeydd cloddio penodol ac yn ystod 2009/10 rydyn ni wedi buddsoddi dros £125,000 mewn cynnal y safleoedd hyn. Er enghraifft, rydyn ni wedi parhau gyda rhaglen hirdymor i sicrhau diogelwch y cyhoedd drwy reoli peryglon amgylcheddol, a chynnal gwaith trin peryglon a ffensiō siafftau mwyngloddiau. Mae nifer o hen fwyngloddiau wedi dod yn gynefin pwysig i ystumod a rhywogaeth eraill a ddiogelir, a rydyn ni'n gweithio ar y cyd gyda Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a CADW i gydbwysu materion diogelwch a chadwraeth. Mae hyn yn rhan o raglen pellach parhaus o waith gyda CCC ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SGDA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a chynefinoedd eraill tebyg ar draws Cymru.



Ystad Morol

Mae'r Ystad Morol yn cynnwys gwely'r môr o gwmpas Cymru hyd at derfyn 12 môr filltir, a 67% o'r blaenlan. Mae'n daliadau yn cynnal ffynonellau pwysig o gyflogaeth ac incwm, gan gynnwys porthladdoedd, harbwy'r a marinau, echdynnu agregiadau ar gyfer y diwydiant adeiladu a, ar gyfradd sy'n tyfu, cynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy ffermydd gwynt ar y môr.

Mae'n daliadau arfordirol yn cynnwys ardaloedd o brydferthwch mawr ac o bwysigrwydd cenedlaethol, ac rydym yn ddirfiol iawn ynghylch ein cyfrifoldebau tuag atynt a thuag at bobl Cymru. Yr her ydy cydbwysu blaenoriaethau amgylcheddol gyda datblygiad cynaliadwy. Cyrhaeddwn hyn drwy weithio'n agos gyda'r ystod gyfan o ddiwydiannau morol megis porthladdoedd, harbwy'r, marinau a'r sector ynni adnewyddadwy.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, daeth proses hirdymor o gydweithio ac ymgynghoriad gyda budd-dalwyr yn Aberdaugleddau i ben yn llwyddiannus gyda chludiant cyntaf nwy naturiol hylifedig. Mae hyn wedi helpu selio Aberdaugleddau fel mewnforiwr pwysig nwy naturiol hylifedig i'r DU.

Rydym ni hefyd wedi gweithio ar y cyd gyda RNLI i helpu'r sefydliad i gwrdd â bwriadau yn ardal Dinbych y Pysgod, drwy waredu ein daliad yn yr orsaf bad achub a buddsoddi arian sylweddol i wella cyfleusterau ym Marina Deganwy, a brynwyd yn 2007.

Ynni Adnewyddadwy

Bydd llwyddiant wrth ddatblygu ynni adnewyddadwy yn gwella diogelwch ynni y DU yn ogystal â mesurau Llywodraeth Cynulliad Cymru i liniaru allbwn CO2. Yr un mor bwysig ydy'r modd y bydd yn creu swyddi a buddsoddiad ac yn cyfrannu at ddatblygiad diwydiant arwyddocaol gyda photensial sylweddol i allforio. Ein rôl fel galluogwyr ydy gweithredu cyfres o fentrau sylweddol, rheoli trafodaethau dyrys a phartneriaethau tra bod y diwydiant yn cynyddu galluogrwydd ac yn buddsoddi mewn rhai o'r prosiectau seilwaith mwyaf yn y byd.

Mae'r gwaith adeiladu ar fferm wynt Gwastadeddau'r Rhyl wedi ei gwblhau erbyn hyn ac yn gweithredu'n gyflawn sy'n cwrdd â gofynion ynni 61,000 o gartrefi; disgwylir y bydd y gwaith adeiladu o'r datblygiad Glan y Môr yn dechrau y flwyddyn nesaf. Bydd y ddau brosiect yma yn cydweddu â'r fferm wynt ar y môr cyntaf yng Nghymru yng Nogledd Hoyle, sydd wedi bod yn gweithredu ers 2003 ac sydd erbyn hyn yn cwrdd â gofynion ynni 40,000 o gartrefi.

Disgwylir i faint y trydan a gynhyrchir gan ffermydd gwynt ar y môr ar ein hystad morol yng Nghymru i gynyddu'n sylweddol yn dilyn Cam 3 y rhaglen ffermydd gwynt ar y môr a ddaeth i ben tua diwedd y flwyddyn ariannol gyda chyhoeddiad y cynigyddion llwyddiannus ar gyfer pob un o'r naw parth gwynt o gwmpas arfordir y DU. Mae dau o'r parthau hyn mewn dŵr yn agos at Gymru: gwobrwyd Centrica Renewable Investments CYF gyda Môr Iwerddon a'r parth ym Môr Hafren nawr yn gyfrifoldeb Bristol Channel Zone Ltd (perchnogir 100% gan RWE npower).

Mae'r pleidiau i gyd wedi arwyddo cytundebau gyda ni erbyn hyn i fynd â'r cynlluniau drwy'r broses cynllunio a chyfnod caniatad, ac mae Ystad y Goron wedi ymroi i fuddsoddi £100 miliwn yn ystod Cam 3 i orchfygu cymaint o'r peryglon ag sy'n bosib a allai rhwystro datblygiad.

Y tu hwnt i ffermydd gwynt ar y môr, rydym ni'n cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sut y gallwn ni helpu defnyddio'r potensial o greu ynni drwy brosiectau ton a llanw o gwmpas Cymru.

Hawliau Mwynau

Mae'r Ystad Morol hefyd yn cynnwys yr hawliau mwynau ar neu o dan wely'r môr, o'r arfordir allan i ffin yr ysgafell gyfandirol, heb gynnwys olew a nwy. Fel perchnogydd tir, rydym ni'n cyhoeddi trwyddedau ar gyfer echdynnu agregiad unwaith i gwmni dderbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n rheoleiddio'r mater.

Mae agregiadau yn rhan bwysig o'n busnes, nid yn unig i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru, ond hefyd i'r nifer o fusnesau, o bobl a chymunedau sy'n dibynnu arno am gyflogaeth ac incwm. Mae'r rhan helaeth o dywod a ddefnyddir mewn adeiladu ar draws De Ddwyrain Cymru yn cael ei echdynnu o Fôr Hafren. Er bod y 12 mis diwethaf wedi gweld gostyngiad mewn echdynnu agregiad o ddŵr yng Nghymru oherwydd y diffyg gweithgaredd yn y sector adeiladu a'r terfyn ar dreilio ar lan Trefonnen, mae'n parhau yn fusnes allweddol i Ystad y Goron ac i Gymru yn gyffredinol.

Fel rhan o'n rôl goruwchwyliath, rydym ni'n buddsoddi mewn ymchwil i mewn i dreilio a'i effeithiau ac yn arolygu yn aml y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf er mwyn gweithredu yn y modd gorau posib.

